
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.
This document is available in English



# CRYNODEB

# CYLLUN CREU LLEOEDD CEI CONNAH

creu lleoedd SIR Y FFLINT

Roberts Limbrick

chris jones

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# CRYNODEB

Diben y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw nodi'r anghenion, y weledigaeth, y dull a'r fframwaith cyfleoedd a fydd yn helpu cynllunio a chyflawni gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le yng Nghei Connah. Er ei fod yn canolbwyntio ar ganol y dref, mae'r Cynllun yn edrych hefyd ar y berthynas ehangach gyda'i gymdogaethau a'i drigolion. Mae Cei Connah yn un o saith o drefi ledled Sir y Fflint sy'n cael Cynllun Creu Lleoedd wedi'i ddatblygu ar eu cyfer, gan gynnwys Bwcle, y Fflint, Treffynnon, yr Wyddgrug, Queensferry a Shotton.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn helpu i ddangos ac adnabod anghenion lleol, ac felly rhoi tystiolaeth i sefydliadau cyflawni strategol wrth gydgyfeirio  gwasanaethau o ddydd i ddydd, yn ogystal â throsoli cyllid grant ar gyfer prosiectau adfywio yn y dyfodol. Mae hefyd yn nodi ffyrdd o weithio sy'n pontio partneriaethau strategol a lleol a fydd yn helpu meithrin datblygu a gweithredu prosiectau ar y cyd a chynaliadwyedd mwy hirdymor tref fel Cei Connah.



## Heriau Cei Connah

- Mae canol y dref yn agos at nifer o asedau gwyrdd yn ogystal â bod ar hyd glan afon Dyfrdwy. Er hynny, mae'n teimlo ei fod wedi ei wahanu heb ddim cysylltiadau clir â'r Parciau na'r mannau amwynderol hyn nag ardal y Dociau. Mae felly'n teimlo'n drefol o ran cymeriad ond eto mae ganddo lecynnau gwyrdd a glan yr afon i'w crwydro gerllaw.
- Mae profiad o fod o dan oruchafiaeth cerbydau ar hyd y B5129 yn effeithio ar y parth cyhoeddus, cyfleoedd i dreulio amser, dibenion a gweithgareddau ac ansawdd bywyd. Mae'r profiad ffisegol yn wael gyda phresenoldeb cyson cerbydau, lleoedd cyfyng ar balmentydd, dim teimlad o le na lleoedd cyhoeddus i gyfarfod a diffyg cynnal a chadw/rheolaeth.
- Mae'r Ganolfan Siopa a'r Stryd Fawr yng nghanol y dref ond mae'n syrthio'n fyr o fod yn llecyn cyhoeddus prysur a gweithgar. Mae arwynebedd llawr yn wael, mae'r lle yn fyr o strwythur ac nid yw'r Ganolfan Siopa yn weledol ddeniadol. Mae'r Ganolfan Feddygol wedi ei gosod y tu ôl i'r Parêd ac mae'n teimlo wedi ei gwahanu oherwydd y cyswllt gael trwy'r iard sy'n ei gwasanaethu.
- Wrth gyrraedd mae amryw o adeiladau a safleoedd amlwg sy'n iselhau safon amgylchedd canol y dref gydag adeiladau segur, tir a goruchafiaeth caeadau diogelwch, ffenestri wedi eu byrddio a dirywiad graddol mewn cyflwr ffisegol. Mae'r rhain yn cynnwys yr hen Motorworld a thafarn y Customs House.
- Mae'r dref yn dal gafael ar ei gorffennol diwydiannol ac mae angen iddi symud ymlaen fel y gall gyflwyno'i hun fel cymuned sy'n dal i fod â balchder ond sy'n adnabyddus am ei lleoliad o fewn ardal ddeinamig Glannau Dyfrdwy.

# EIN GWELEDIGAETH AR GYFER CEI CONNAH



## Gweledigaeth

Y Cei – Amlygu'r Stryd Fawr fel sy'n cysylltu glan afon Dyfrdwy â'i pharciau a llecynnau agored, sydd yn galon i fywyd y gymuned, ac yn lle cymdeithasol a bywiog ac i bawb.



## Nodau Allweddol

Adeiladu ar dreftadaeth y Cei gyda chanol ei dref yn gweithredu fel pont rhwng Afon Dyfrdwy, yr hen Ddociau, ei barciau a'i gymdogaethau

Cyhoeddi Cei Connah wrth gyrraedd yno a chreu lle mwy unedig yn y Parêd sy'n groesawgar i bobl ac yn lle i'r gymuned ddod at ei gilydd

Credu gwell strydlun a phrofiad i gerddwyr ar hyn y B5129 sy'n cysylltu ag ardal y Dociau, y Parciau a chyfleusterau cymunedol eraill

Gwella ansawdd y parth cyhoeddus trwy cynllun a gweithgareddau o dan arweiniad y gymuned sy'n arwain at ganol tref glanach, diogel a mwy apelgar i fod ynddo



## CYFLEOEDD LLE



### Gwella'r Ffordd Fawr (B5129) trwy Gei Connah

Mae'r B5129 yn rhedeg drwy ganol y dref, ond nid yw'n gwneud fawr ddim i gyhoeddi na dathlu'r dref. Mae'n tueddu i fod yn lle ymarferol, ond o dan oruchafiaeth ceir nad yw'n cynnig ond lleoedd cyfyngedig sydd o ansawdd uchel i bobl. Mae angen i'r stryd fod yn lle o fywyd o weithgarwch lle mae pobl y dref yn gallu dod at ei gilydd.

Ar y naill ben a'r llall o'r B5129, dylai pyrth gyhoeddi eich cyrhaeddiad yn y dref. Bydd y rhain yn defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel, celf cyhoeddus, ac arwyddion i roi argraff gyntaf gadarnhaol o'r dref a dweud “Croeso i Gei Connah”. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ar ben dwyreiniol y dref, ar y ffin â Shotton. Dylai Ce Connah gael ei hunaniaeth ei hun a phorth clir ar hyd bont Nant Wepre.

Lleoliad allweddol ar hyd y ffordd yw cyffordd Ffordd y Doc, sy'n eich arwain chi i lawr i'r Dociau. Mae pensaernïaeth Victoriaidd adeiladau cyfagos a llecynnau gwyrdd yn creu amgylchedd braf, ond gellid gwella hyn trwy gelf cyhoeddus ac arwyddion i gyfeirio pobl yn well. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i fynediad i feicwyr a cherddwyr rhwng y B5129, y Llwybr Beicio Cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru.



### Gwella Ardal Canolfan Siopa'r Stryd Fawr

Dylai'r Ganolfan Siopa fod yn ganolbwynt cymdeithasol i'r dref ac yn lle ar gyfer gweithgareddau. Lle i bobl alw heibio i gael eu hanfodion dyddiol, lle gallant gyfarfod ffrind a chymdeithasu. Fodd bynnag, mae'r Ganolfan Siopa yn lle anysbrydoledig iawn, o dan oruchafiaeth ceir a lleoedd parcio ac nid yw'n cynnig dim lle o ansawdd uchel i bobl.

Mae angen uno'r cyfan o'r lle, gan gynnwys y mannau parcio a'r B5129 a'i drawnewid yn sgwâr tref Cei Connah. Lle i bobl y dref, sy'n caniatáu ar gyfer amrywiol weithgareddau a digwyddiadau, ar gyfer cymdeithasu a chyfarfod, gan hefyd gynnal anghenion trigolion o ddydd i ddydd. Mae angen ailgynllunio'r berthynas rhwng y lleoedd parcio a'r ffordd er mwyn creu mwy o le i bobl a chreu amgylchedd nad yw gymaint o dan oruchafiaeth ceir.

Bydd 'amgylchedd ar y cyd' yn caniatáu pobl i groesi'r lle yn ddilyffethair ac yn annog ceir i arafu. Gellir defnyddio tirlunio a choed i feddalu'r amgylchedd a diffinio lleoedd y sgwâr. Gallai sgwâr y dref wasanaethu amrywiaeth helaethach o swyddogaethau megis digwyddiadau, ffeiriau, marchnadoedd neu berfformiadau. Gallai hyn ddarparu lle unigryw a hyblyg i'r dref nad yw ar gael yn yr ardal leol fel arall. Mae angen gwella adeiladau'r Ganolfan Siopa ei hun. Byddai dyluniad cyson o flaenau siopau yn helpu i uno'r llawr gwaelod tra gallai defnyddio deunyddiau o ansawdd uchel neu liw adfywio'r lloriau cyntaf.



chris jones · rl. · creu lleoedd SIRYFFLINT

## CYFLEOEDD LLE



**Uno Ardaloedd Cei Connah**

Mae gan Gei Connah hanes a threftadaeth ddiwylliannol gyfoethog, sydd angen eu dathlu o fewn y dref. Mae ganddi nifer o nodweddion ac asedau unigryw sy'n ei gwneud yn wahanol i'w chymdogion fel Shotton. Mae arni felly angen ei hunaniaeth ei hun, sy'n gweithio law yn llaw â hunaniaeth Shotton ond yn wahanol iddi.

Mae hunaniaeth Cei Connah yn gysylltiedig â'i dreftadaeth Victoriaidd, gydag adeiladau deniadol o frics coch a'i gysylltiad â'r dociau a Phont Sir y Fflint. Mae angen amlygu'r rhain i gyd i ffurfio sail ar gyfer cod dylunio i'r dref. Gellir gweithredu'r cod hwn wedyn yn strategaeth dreftadaeth, celfyddydau ac arwyddion, i helpu i uno'r dref ac annog ymwelwyr a thrigolion i grwydro mwy o'u tref ac archwilio'i hunaniaeth.

Mae nifer o safleoedd allweddol ac adeiladau gwag o fewn y dref sy'n cyfrannu at roi argraff wael o'r ardal. Mae angen ailddatblygu safleoedd megis safle Motorworld i'w hailddefnyddio. Mae disgwyl i hen dafarn y Customs House gael ei hailddatblygu'n feddygfa ddeintyddol, a fydd yn hwb i'r ardal.

Bydd manteisio i'r eithaf ar asedau presennol y dref hefyd yn allweddol. Gellir gwneud mwy i droi'r dociau a'r llwybr glan yr afon yn brofiad unigryw i gerddwyr a beicwyr, a all adlewyrchu hanes y dref a manteisio arno.




**Gwella Cysylltedd**

Oherwydd natur hirgul datblygiad yng Nghei Connah, yn enwedig agosrwydd rheilffordd arfordir Gogledd Cymru, mae'r Dociau ac ardal glan yr afon wedi ei thorri oddi wrth brif ganol y dref gyda theimlad ei bod wedi ei gwahanu oddi wrth y profiad ehangach.

Wrth archwilio'i hanes, roedd cysylltiadau'r dref â rheilffyrdd yn golygu bod yr hen ddociau yn helpu i gludo brics, clai a chynnyrch  crochenwaith o Bwcle a chynhyrchion o weithfeydd dur John Summers & Sons. Roedd y porthladd yn cynnwys iard longau Ferguson a adeiladodd y llong hanesyddol Kathleen & May, gan ddod yn dref reilffordd bwysig. I ddathlu'r dreftadaeth forol a diwydiannol gyfoethog, mae gan Ganolfan Dreftadaeth Kathleen and May, ar Ffordd y Doc arddangosfeydd, arddangosiadau rhyngweithiol, a rhaglenni addysgol, sy'n dod â hanes yn fyw, gan rannu straeon adeiladwyr llongau, llongwyr, ac arloeswyr diwydiannol. Mae'r Ganolfan Dreftadaeth yn atyniad lleol allweddol y mae angen iddo ffurfio rhan o'r cynllun creu lleoedd ehangach, er nad yw gerllaw'r Stryd Fawr.

Mae gan lan yr afon Lwybr Arfordir Cymru hefyd yn rhedeg drwyddi, yn ogystal â Llwybr Beicio Cenedlaethol Sustrans y mae pobl leol ac ymwelwyr yn ei ddefnyddio i ddibenion hamdden. Mae angen ystyried gwelliannau ffisegol ar Ffordd y Doc a Lôn y Cei o ran ymylon, arwyddion a ffyrdd o ymestyn ymweliadau. Mae'r angen i hyrwyddo cysylltiadau rhwng ardal y dociau a chanol y dref yn bwysig er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn ffynnu rhwng  y ddwy ardal hon o Gei Connah.

## CYFLEOEDD LLE




**Cadw'r Dref yn Lân, Diogel a Chroesawgar**

Thema gyffredin ymhlith trefi eraill Sir y Fflint yw'r angen am dull cydgysylltiedig o reoli strydoedd fel eu bod yn lân, diogel, hygyrch ac yn teimlo'n lleoedd braf i fod ynddynt. Mae rhywfaint o'r cyfrifoldeb hwn gan y Cyngor Sir ond mae angen hefyd archwilio rôl y sector preifat a chymunedol mewn cefnogi balchder dinesig a rhannu cyfrifoldeb a budd.

Mae presenoldeb ac agosrwydd y B5129 yn rhedeg drwy ganol y dref yn achosi problemau gyda llygredd aer a sŵn. Mae'r traffig cyson drwodd a threfn y gerbytffordd bresennol yn golygu nad yw pobl yn stopio ac mae'n teimlo i raddau helaeth fel lle i gerdded drwyddo. Mae hyn wedi arwain at balmentydd yn edrych yn fudr, ac ymddengys nad yw glanhau a chynnal a chadw'n digwydd yn ddigon aml o ystyried dwysedd y briffordd. Mae'n golygu hefyd nad yw coed a gwyrddni wedi eu plannu ar raddfa fawr oherwydd y diffyg lle dinesig a diffyg diben.

Mae hefyd angen cydgysylltu a rheoli trwyddedu hysbysebion a gweithgareddau stryd fel y gall defnyddwyr canol y dref brofi amgylchedd hygyrch gan gydbwyso anghenion busnesau i arddangos eu nwyddau a chael cyfleoedd i ddefnyddio byrddau a chadeiriau pan mae'r busnes yn canolbwyntio ar fwyd a diod.

## CYFLEOEDD POBL



### Pobl leol, Angerdd a Gweithgarwch

Mae angen helpu canol y dref trwy dod ag ysbryd cymunedol a gweithgareddau amrywiol grwpiau a sefydliadau Cei Connah at ei gilydd mewn nifer o ffyrdd:

- Datblygu rhestrau ar gyfer dibenion, gweithgareddau a chyfleusterau canol y dref a'u hyrwyddo mewn print ac yn ddigidol;
- Datblygu syniadau, dibenion a gweithgareddau ar lawr gwlad ar gyfer safleoedd ac adeiladau a danddefnyddir;
- Treialu gweithgarwch stryd sy'n apelio at drigolion lleol;
- Archwilio cyfleoedd am draws-farchnata rhwng gweithgareddau hamdden fel chwaraeon, adloniant, treftadaeth, tyfu, etc;
- Meddwl drwy'r holl gymuned am hunaniaeth i Gei Connah sy'n adlewyrchu ei orffennol a hefyd lle mae ar hyn o bryd; cynnwys pob cymdogaeth leol fel y ceir amrywiaeth o safbwyntiau;
- Ceisio gwirfoddolwyr i helpu treialu syniadau, mentrau ac ymgyrchoedd newydd.

Yn aml, gall dulliau dan arweiniad y gymuned o greu lleoedd ar gyfer canol trefi ddigwydd yn gyflym o gymharu â'r sector preifat, gan fod amser yn wirfoddol a bod gan bobl rwydweithiau lleol i wneud i bethau ddigwydd ac mae angen i'r galw am syniad neu weithgarwch fod yn hysbys o fewn y gymuned.



### Lle i Ddysgu a Datblygu Sgiliau

Mae cyfleoedd o fewn Cei Connah i bobl ffynnu a gwella eu sgiliau bywyd a'u datblygu ymhellach.

Gall fod nifer o gyfleoedd i'w harchwilio gyda'r sefydliadau hyn fel:

- Ffenest siop i'w gweithgareddau o fewn canol y dref sy'n arddangos eu gwasanaethau, a darparu lle ar gyfer manwerthu a dysgu.
- Defnyddio eu gwasanaethau megis adnoddau gwaith coed Hwb Cyfle i wneud blychau plannu a dodrefn pren eraill i'w defnyddio fel rhan o wyrddu canol y dref.

Mae angen canfod cyfleoedd i bobl ifanc ddysgu am y sector manwerthu a gwasanaethau, gyda phrofiad ymarferol law yn llaw â mentoriaid a hyfforddwyr. Gall gweithgarwch a buddsoddiad seiliedig ar le agor cyfleoedd hyfforddi ac uwchsgilio i drigolion, busnesau a sefydliadau lleol.

Gall safleoedd a danddefnyddir yng nghanol y dref gynnig cyfleoedd hefyd i ysgolion cyfun lleol, colegau addysg bellach a sefydliadau eraill i dreialu syniadau a mentrau newydd i ddiwallu marchnad sydd heb ei phrofi. Gall colegau addysg bellach lleol ddatblygu cysylltiadau â rhaglenni buddsoddi mewn adfywio hefyd, gyda phrentisiaethau mewn gwaith brics, saernïaeth a gwaith coed, plymio a gwres a chrefftau eraill..

## CYFLEOEDD POBL



### Tyfu Cei Connah Gwyrddach


Mae cyfleoedd i integreiddio seilwaith gwyrdd a rôl gwyrddu/bioamrywiaeth o fewn y lle ehangach yn allweddol er mwyn gwella'r teimlad o le, llesiant lleol a hefyd i fynd i'r afael â heriau argyfwng hinsawdd.


Mae gwyrddu strydoedd canol y dref mewn ffordd sy'n creu ffurf a strwythur yn flaenoriaeth allweddol wrth ychwanegu at y parth cyhoeddus, lleoedd i eistedd yn ogystal ag i gysgodi rhag yr haul, amsugno dŵr ffo a chefnogi ffurfiau eraill o addasu i'r hinsawdd a datblygu gwydnwch. Gall strydoedd hyrwyddo tyfu lleol hefyd, gyda blychau perlysiau a chardiau ryseitiau i hyrwyddo defnyddio llysiau tymhorol a chadwyni cyflenwi lleol.

Mae angen i fannau gwyrdd, parciau, caeau chwarae a hamdden, llwybrau, ymylon ffyrdd ac ardaloedd eraill o wyrddni gael eu cysylltu gyda'i gilydd fel y gall trigolion lleol fanteisio arnynt. Mae cyfleoedd i gyflwyno plannu rhagor o goed, ardaloedd peillio a phlannu ar y ddaear yn ychwanegu at fioamrywiaeth leol a chadwraeth natur. Dylid archwilio cyfleoedd am dyfu cymunedol lle ffurfir grwpiau a all reoli tir a danddefnyddir i ddibenion cynhyrchiol. Gall hyn ffurfio rhan o ragnodi cymdeithasol sy'n gysylltiedig â phrosiectau iechyd cymunedol.

### Symud Ymlaen

Mae gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd hwn yn dibynnu ar ddull partneriaeth lle mae grwpiau a sefydliadau'n dod at ei gilydd o wirfodd i ddatblygu a pheri i newid ddigwydd yng nghanol tref Cei Connah a'i gymdogaethau cyfagos. Mae'r cyfleoedd o fewn y Cynllun Creu Lleoedd hwn yn gofyn am wahanol gyfuniadau o bartneriaid, adnoddau ac amserlen ar gyfer datblygu a chyflawni .





creu lleoedd
SIRYFFLINT

chris jones

Roberts Limbrick